| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r :** | **Pwyllgor Archwilio** |
| **Dyddiad :** | **25 Medi 2012** |
| **Pwnc:** | **Adroddiad PWC i Swyddfa Archwilio Cymru ar yr archwiliad o ddangosyddion perfformiad y Cyngor** |
| **Deilyddion Portffolio :** | **Byron Davies / John Chorlton** |
| **Swyddog Cyfrifol:** | **Pennaeth Adnoddau** |
| **Swyddogion Cyswllt :** | **Rheolwr Cynllun Busnes a Rhaglenni** |

## 1. NATUR YR ADRODDIAD A'R RHESWM AMDANO

**1.1** Dan y Fframwaith Gwella Perfformiad Cenedlaethol a sefydlwyd yn Ebrill 2011, disgwylir i'r Awdurdod Lleol (ALI) adrodd yn gorfforaethol bob blwyddyn i Lywodraeth Cymru ar nifer (139) o ddangosyddion perfformiad allweddol . Mae'r fframwaith ei hun yn canolbwyntio ar ddau faes penodol -

**1.1.1** **Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MAC)** – darparu mesurau ar gyfer atebolrwydd cyhoeddus ac yn cynnwys cyfres fechan (25) o ddangosyddion 'yn seiliedig ar ganlyniadau', wedi eu dewis yn y lle cyntaf o'r fframwaith gwella perfformiad cyfredol. Maent yn adlewyrchu'r agweddau hynny ar waith yr ALI y mae Awdurdodau Lleol yn cytuno eu bod yn rhai pwysig o ran atebolrwydd cyhoeddus. Er enghraifft, ailgylchu, cyrhaeddiad addysgol, datblygiad cynaliadwy ac ati. Caiff y wybodaeth hon ei hadrodd, ei dilysu a'i chyhoeddi bob blwyddyn.

**1.1.2** **Data Gwella Perfformiad (DGP)** - datblygu setiau data (98) i'w defnyddio gan y Gwasanaethau a'u rheoleiddwyr i gefnogi'r broses o wella gwasanaethau. Gall gwasanaethau'r ALI a'u rheoleiddwyr ddefnyddio'r rhain wrth iddynt gynllunio, darparu a gwella gwasanaethau. Bydd y setiau data hyn yn cael eu diffinio gan Awdurdodau Lleol yn ôl angen a gwerth, eu dwyn ynghyd yn ganolog a'u rhannu gyda'r gymuned llywodraeth leol i gefnogi gwella gwasanaeth.

**1.2** Yn ychwanegol at y dangosyddion hyn, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i bennu **Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSC)** (24) ac mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar bob ALI i'w casglu ac adrodd yn flynyddol arnynt. Mae 8 o'r dangosyddion hyn yn cyfateb i 8 o'r MAC ac o'r herwydd, disgwylir y byddant yn cael eu defnyddio ac y bydd gwahanol gynulleidfaoedd yn cael gwybod amdanynt.

**1.3** Unwaith y ceir adroddiad arnynt, caiff y dangosyddion wedyn eu harchwilio gan Price Waterhouse Coopers a chyflwynir adroddiad ar ganfyddiadau'r adroddiad hwnnw i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor (a'i amgáu fel Atodiad 1) gyda chrynodeb byr o resymeg y Cyngor a'r mesurau lliniaru a roddwyd yn eu lle i roi sylw i unrhyw ddangosyddion nad oeddynt yn cytuno â nhw.

## 2. YR HYN SY'N CAEL EI FESUR A PHAM

**2.1** Roedd yr archwiliad o ddangosyddion 2011/12 yn canolbwyntio ar 9 DSC a dau (2) DP lleol fel a nodwyd yng Nghynllun Busnes Corfforaethol yr ALl ar gyfer 2011/12 ac yn ymwneud â meysydd a oedd yn gysylltiedig â:

**2.1.1** Addysg
**2.1.2** Rheoli Gwastraff
**2.1.3** Glanhau Strydoedd
**2.1.4** Digartrefedd
**2.1.5** Gofal Cymdeithasol
**2.1.6** Barn y Cyhoedd
**2.1.7** Nifer Ymwelwyr

## 3. MANYLION YR ADRODDIAD

**3.1** Cyflwynir manylion yr adroddiad yn atodiad 1, ond i grynhoi, dyma'r dangosyddion hynny (3) nad oeddynt yn cytuno â nhw –

**3.1.1** **EDU002(ii)** – % y disgyblion yng ngofal yr ALl mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan yr ALl sy'n 15 oed y mis Awst cynt ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu hyfforddiant yn seiliedig mewn gweithle heb gymhwyster allanol cydnabyddedig.

**3.1.1.1** Nid oeddynt yn cytuno gyda'r dangosydd hwn oherwydd nad oedd yr ALl yn gallu darparu tystiolaeth ddogfennol i brofi bod yr holl ddisgyblion yng ngofal yr ALl. Yn ychwanegol at hyn, ni fedrai'r ALl gael data a oedd yn tystio i lwyddiant addysgol y disgyblion.

**3.1.2** **WMT/009** – % y gwastraff cyhoeddus a gasglwyd gan ALl a'i baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio ac/neu ei ailgylchu gan gynnwys gwastraff bio a oedd yn cael ei ddidoli yn ei ffynhonnell a'i gompostio neu ei drin yn fiolegol mewn ffordd arall

**3.1.2.1** Nid oeddynt yn cytuno gyda hyn oherwydd nad yw dangosydd yr ALl yn eithrio gwastraff traeth ac y dylid ei eithrio yn ôl diffiniad y DP.

**3.1.3** **LLEOL** – Nifer yr ymwelwyr i Atyniadau y mae'r Cyngor yn berchen arnynt

**3.1.3.1** Cafodd y ffigwr hwn ei ddiwygio at i fyny o'r ffigwr a ddarparwyd ond oherwydd anghytundeb ynghylch ffynhonnell y dogfennau ar gyfer nifer o brofion yr archwilwyr, nid oeddynt yn cytuno gyda'r dangosydd.

## 4. CASGLIADAU A MESURAU LLINIARU'R AWDURDOD LLEOL

**4.1** EDU002(ii) – Oherwydd bod staff ar wyliau ac oherwydd yr amserlen, ni fu modd anfon y gwaith papur i'r Archwiliwr mewn pryd iddynt gwrdd â'u cyfrifoldeb statudol o ran adrodd. Fodd bynnag, mae rheoli perfformiad wedi cael ei nodi fel rhan allweddol o Gynllun Gweithredol Ôl-Arolwg y Gwasanaeth Addysg ac mewn cydweithrediad gyda'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, bydd yn cael ei ddefnyddio i fonitro a meincnodi data perfformiad perthnasol yn y dyfodol. Bydd adroddiadau ar faterion o'r fath hefyd yn cael eu hanfon i'r Panel Rhiant Corfforaethol ar gyfer y cyfnod perthnasol ddiwedd yr hydref bob blwyddyn.

**4.2** WMT/009 – bydd y dangosydd hwn yn cael ei newid ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol ac mae'r diffiniad newydd wedi gwneud i ffwrdd â'r angen i dynnu gwastraff traeth o'r dangosydd.

**4.3** Nifer yr ymwelwyr LLEOL - Mae trefniadau monitro diwygiedig wedi cael eu sefydlu gan y Gwasanaeth sy'n gyfrifol am yr atyniadau i ymwelwyr y mae'r ALI yn gyfrifol amdanynt a chytunwyd ar fformiwlâu ar gyfer tocynnau aml-ddefnydd.

## 5. ARGYMHELLIAD

**5.1** Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cael eu gofyn i nodi cynnwys yr adroddiad a'r mesurau lliniaru a nodwyd.

**GILL LEWIS**
**PENNAETH SWYDDOGAETH DROS DRO (ADNODDAU)** **17 MEDI 2012**